Comisiwn
y Gyfraith
Diwygio'r gyfraith



# Moderneiddio Cyfraith Ewyllysiau

## Crynodeb o'r Adroddiad

## PROSIECT COMISIWN Y GYFRAITH AR GYFRAITH EWYLLYSIAU

| | | |
|---|---|---|
| | **Pwy ydym ni?** | Mae Comisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr yn gorff annibynnol a sefydlwyd drwy statud i wneud argymhellion i'r Llywodraeth ynglŷn â diwygio'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr. |
| | **Beth rydym yn ei wneud?** | Rydym yn gwneud argymhellion yn ein Hadroddiad ar ddiwygio cyfraith ewyllysiau, yn dilyn ein hymgynghoriad cyhoeddus yn 2017 a'n hymgynghoriad cyhoeddus atodol yn 2023. Rydym hefyd yn cyhoeddi Bil drafft, sydd i fod i ddisodli'r hen ddeddfwriaeth – Deddf Ewyllysiau 1837 – gyda Deddf Ewyllysiau fodern. |
| | **Beth yw'r prosiect?** | Mae ein prosiect yn ymdrin â'r gyfraith sy'n gymwys ag ewyllysiau, gan gynnwys y gyfraith sy'n rheoli sut y gellir gwneud ewyllysiau. Dogfen yw ewyllys sy'n delio â'r eiddo y bydd person yn ei adael ar ôl, ar ôl ei farwolaeth, sy'n rhoi cyfarwyddyd ynghylch pwy fydd yn etifeddu beth. Mae cyfraith ewyllysiau yn hen ac yn gymhleth: mae'n cael ei lywodraethu gan Ddeddf Ewyllysiau 1837, a chyfraith achosion dros y canrifoedd diwethaf. Ein gwaith ni yw'r adolygiad cynhwysfawr cyntaf o'r ddeddfwriaeth mewn bron i 200 o flynyddoedd. |
| | **Ble allwn i ddod o hyd i'r Adroddiad?** | Mae'r Adroddiad llawn a'n Bil drafft, ynghyd â dogfennau eraill, ar gael yn https://lawcom.gov.uk/project/wills/. |
| | **Beth fydd yn digwydd nesaf?** | Bydd y Llywodraeth yn ystyried ein hargymhellion a'n Bil drafft ac yn penderfynu a ddylid newid y gyfraith. |

## Y CRYNODEB HWN

Mae'r Crynodeb hwn yn egluro'r prosiect ac yn tynnu sylw at ein prif argymhellion ar gyfer diwygio'r gyfraith. Nid yw'n crynhoi'r holl ddiwygiadau rydym yn eu hargymell i'r gyfraith.

Mae trafodaeth fanwl a'n holl gynigion ar gyfer diwygio ar gael yn yr Adroddiad llawn, ynghyd â Bil drafft, sy'n rhoi ein hargymhellion ar gyfer diwygio ar waith.

Pan fyddwn yn sôn am ein Hadroddiad yn y Crynodeb hwn, at ein Hadroddiad llawn y byddwn yn cyfeirio.

Mae’r gyfraith sy’n ymdrin ag ewyllysiau yn mynd yn ôl i Oes Fictoria i raddau helaeth. Mae’n cael ei rheoli gan ddeddfwriaeth – yn bennaf, Deddf Ewyllysiau 1837 – a chyfraith achosion; rhai ohonynt yn datblygu ers cannoedd o flynyddoedd. Er bod cyfraith ewyllysiau, i ryw raddau, wedi gallu ymateb i amgylchiadau a dealltwriaethau modern, nid yw wedi cael ei hadolygu’n gynhwysfawr ers bron i 200 o flynyddoedd. Mae’r prosiect hwn wedi ceisio sicrhau bod y gyfraith sy’n ymdrin â’r pwnc pwysig hwn yn parhau i fod yn addas i’r diben heddiw, drwy wneud argymhellion ar gyfer cyfraith ewyllysiau fodern.

## GEIRFA

Er ein bod wedi ceisio drafftio’r crynodeb hwn mewn ffordd syml, mae ychydig o dermau mwy arbenigol yn cael eu defnyddio, ac rydyn ni’n eu nodi isod.

“**Buddiolwr** ”: unigolyn sy’n cael arian neu eiddo fel rhodd yn unol â thelerau ewyllys.

“**Ystad**”: eiddo, arian a’r pethau personol y mae rhywun yn berchen arnynt.

“**Gweithredu**”: y cam olaf wrth wneud ewyllys – rhaid cydymffurfio â’r gofynion ffurfioldeb a nodir yn y gyfraith wrth wneud hyn er mwyn i’r ewyllys fod yn ffurfiol ddilys.

“**Diewyllys**”: y rheolau sy’n berthnasol pan fydd rhywun yn marw heb wneud ewyllys ddilys.

“**Cywiro**”: y broses o gywiro dogfen gyfreithiol, oherwydd gwall teipograffyddol yn amlach na pheidio.

“**Dirymu**”: y weithred ffurfiol o dynnu ewyllys ddilys yn ôl.

“**Ewyllys statudol”**: ewyllys a wneir gan y llys ar ran person sydd heb y galluedd i wneud ei ewyllys ei hun.

“**Ewyllysiwr**”: unigolyn sydd wedi gwneud ewyllys.

### Amserlen y prosiect

Dechreuodd y prosiect ewyllysiau yn 2016. Ym mis Gorffennaf 2017, fe wnaethom gyhoeddi Papur Ymgynghori ar Wneud Ewyllys. Daeth y cyfnod ymgynghori cyhoeddus a ddilynodd hynny i ben ym mis Tachwedd 2017. Yna, fe ddechreuon ni ddadansoddi’r ymatebion a llunio ein polisi terfynol.

Yn 2019, fe wnaethom oedi’r prosiect er mwyn i ni gyflawni prosiect ar y gyfraith sy’n ymwneud â phriodasau, ar ôl cytuno i gais y Llywodraeth i flaenoriaethu’r gwaith hwnnw. Ym mis Gorffennaf 2022, cyhoeddwyd ein hadroddiad terfynol ar gyfraith priodasau – Dathlu Priodas.

Ailddechreuodd y gwaith ar y prosiect ewyllysiau yn fuan wedyn. Yn dilyn hynny, cyhoeddwyd Papur Ymgynghori Atodol ym mis Hydref 2023 i ail-ymgynghori ar ddau fater ar wahân: ewyllysiau electronig a’r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn dirymu ewyllys bresennol. Cymerwyd y cam hwn oherwydd bod datblygiadau ers cyfnod y Papur Ymgynghori wedi gwneud i ni ailedrych ar y materion hyn, ac oherwydd ein bod yn amau y gallai safbwyntiau’r rhai yr ymgynghorwyd â nhw ar y materion hyn fod wedi newid.

Cyhoeddwyd ein Hadroddiad, ein Bil drafft a’r Crynodeb hwn ar 16 Mai 2025. Mae’r Adroddiad a’r Crynodeb hwn, ynghyd â dogfennau a chyhoeddiadau eraill y prosiect, ar gael ar ein gwefan.

Rydym yn ddiolchgar i bawb a wnaeth ymgysylltu â ni yn ystod ein prosiect. Rydym wedi ystyried yr holl safbwyntiau a gyflwynwyd yn llawn. Rydym wedi egluro ein rhesymeg dros yr holl benderfyniadau rydym ni wedi’u gwneud yn fanwl yn ein Hadroddiad llawn.

## CYFRAITH EWYLLYSIAU A PHAM MAE ANGEN DIWYGIO

Pan fydd rhywun yn marw, bydd ei eiddo'n mynd i'r rheini sy'n cael eu gadael ar ôl. Y gyfraith sy'n ymdrin ag olyniaeth sy'n penderfynu pwy sy'n cael yr eiddo y mae unigolyn yn berchen arno ar adeg ei farwolaeth, sef "ystad" yr unigolyn.

Mae sut mae eiddo'n cael ei drosglwyddo ar farwolaeth yn dibynnu ar a oedd ewyllys ddilys wedi cael ei llunio ar adeg y farwolaeth. Ewyllys yw'r brif ffordd i rywun ddweud beth sy'n digwydd i'w eiddo pan fydd yn marw. Mae'r gallu i wneud ewyllys, yn unol â dymuniadau'r unigolyn, yn egwyddor gyfreithiol sylfaenol yng nghyfraith Cymru a Lloegr. Mae egwyddor rhyddid ewyllysiol yn rhan werthfawr o fod yn berchen ar eiddo. Mae'n rhoi'r hawl i berchnogion roi eu heiddo i eraill pan fyddant yn marw. Mae rhyddid ewyllysiol hefyd yn adlewyrchu'r syniad mai'r unigolyn ei hun sydd yn y sefyllfa orau i asesu ei gyfrifoldebau ei hun tuag at ei deulu a'i ffrindiau a'u hanghenion, er mwyn penderfynu ar y ffordd decaf o rannu'r ystad.

Mae person sydd ag ewyllys ddilys pan fydd yn marw yn cael ei alw'n "ewyllysiwr", gan ei fod wedi marw "gydag ewyllys". Os nad oes gan unigolyn ewyllys ddilys, dywedir ei fod wedi marw'n "ddiewyllys", a defnyddir y rheolau sy'n ymdrin â diewyllysedd i benderfynu pwy sy'n derbyn yr eiddo. Efallai y bydd gan berson ewyllys ddilys sydd ond yn delio â rhan o'i ystad; felly, bydd yn marw'n rhannol ddiewyllys, gyda'r rheolau diewyllysedd yn berthnasol i'r rhan o'r ystad nad yw'r ewyllys yn ymwneud â hi.

Mae'r prosiect hwn yn ymwneud â'r gyfraith sy'n ymdrin ag ewyllysiau, yn hytrach na'r rheolau sy'n berthnasol i ddiewyllysedd.

Mae cyfraith ewyllysiau'n bwysig. Mae'n gallu effeithio ar bawb: bydd llawer o bobl yn gwneud ewyllys eu hunain, yn aml yn ddiweddarach mewn bywyd; ac efallai y bydd llawer o bobl yn cael budd o ewyllys rhywun arall, fel ewyllys rhiant. Mae ewyllysiau hefyd yn ffynhonnell bwysig o arian elusennol, gyda nifer o elusennau'n cael cyfran sylweddol o'u cyllid o roddion sy'n cael eu gadael iddynt mewn ewyllysiau.

Er bod y gyfraith sy'n ymwneud ag ewyllysiau yn hen, mae mwy o resymau na hynny dros ddiwygio'r gyfraith. Efallai fod hen gyfraith wedi sefyll prawf amser. Yn wir, yn ein gwaith, rydym wedi darganfod bod llawer o'r rheolau sy'n ymwneud ag ewyllysiau yn cyflawni polisïau neu fesurau diogelu sy'n adlewyrchu natur ddynol a chredoau cyffredin sydd yr un mor wir neu angenrheidiol heddiw ag yr oeddent mewn canrifoedd a fu.

Fodd bynnag, mae rhai pethau wedi newid. Bydd y rhan fwyaf o bobl yn byw'n hirach na'u hynafiaid, ac o ganlyniad, bydd mwy o bobl yn dioddef o salwch a dirywiad yn eu galluedd meddyliol, sy'n aml yn gysylltiedig â henaint. Gall yr eiddo y mae'r person cyffredin yn berchen arno fod yn fwy gwerthfawr nag yr oedd yn y gorffennol. Heb fod ymhell iawn yn ôl, byddai dogfennau wedi bod ar ffurf papur yn unig; ond mae dogfennau ar ffurf electronig yn fwy cyffredin o lawer erbyn hyn na dogfennau papur. Felly, rydym ni o'r farn fod angen diwygio.

### Beth yw ewyllys?

Mae tair prif nodwedd i ewyllys.

- Mae'n mynegi bwriadau'r ewyllysiwr ynghylch beth ddylai ddigwydd i'w eiddo pan fydd yn marw.
- Mae'n dod yn weithredol ar farwolaeth yr ewyllysiwr ac nid cyn hynny. O ganlyniad, dim ond pan fydd yr ewyllysiwr yn marw yr ymdrinnir â'r eiddo a enwir yn yr ewyllys, a dim ond bryd hynny y daw'n gwbl hysbys pwy fydd yn cael budd o'r ewyllys, oherwydd, er enghraifft, efallai y bydd buddiolwr sy'n cael ei enwi yn yr ewyllys wedi marw cyn i'r ewyllysiwr farw.
- Mae'n bosibl dirymu ewyllys. Ar ôl gwneud ewyllys, gall ewyllysiwr ei dirymu a gwneud ewyllys newydd, neu ei dirymu a pheidio â gwneud ewyllys arall.

Fodd bynnag, gall ewyllys wneud mwy na threfnu beth sy'n digwydd i eiddo. Gall person, yn ei ewyllys, benodi cynrychiolydd personol (ysgutor) i gyflawni'r hyn y mae'r ewyllys yn dweud ddylai ddigwydd ar ôl i'r ewyllysiwr farw. Yn ei ewyllys, gall ewyllysiwr hefyd benodi gwarcheidwad ar gyfer unrhyw blant dan oed sydd ganddo neu fynegi ei ddymuniadau ynghylch beth ddylai ddigwydd gyda'i gorff ar ôl marw.

## NODAU'R PROSIECT

Yn y prosiect hwn, rydym wedi ceisio gwneud argymhellion i ddiwygio'r gyfraith fel ei bod yn mynd ati'n well i –

1. gefnogi defnyddio rhyddid ewyllysiol;
2. amddiffyn ewyllyswyr, gan gynnwys rhag twyll a dylanwad amhriodol; a
3. gwella eglurder a sicrwydd yn y gyfraith lle bo hynny'n bosibl.

Yn y Crynodeb hwn, rydym yn tynnu sylw at argymhellion allweddol sy'n cefnogi'r amcanion hyn. Ar gyfer pob argymhelliad, rydym yn trafod y gyfraith bresennol a'i phroblemau, a'n hargymhellion ni ar gyfer newid y gyfraith. Ar gyfer pob maes, rydym hefyd yn cyfeirio at y bennod berthnasol yn yr Adroddiad.

Fel rhan o'n prosiect, rydym hefyd wedi cynhyrchu Bil drafft ar gyfer Deddf Ewyllysiau newydd sbon. Os daw'n ddeddf, bydd ein Bil drafft yn tynnu Deddf Ewyllysiau 1837 o'r llyfr statud ac yn ei disodli. Yn ogystal â gweithredu ein hargymhellion, bydd y Bil drafft ar gyfer Deddf Ewyllysiau newydd yn ddarn modern a hygyrch o ddeddfwriaeth i reoli'r gyfraith ewyllysiau.



## CEFNOGI RHYDDID EWYLLYSIOL

Mae cefnogi rhyddid ewyllysiol yn thema a welir drwy gydol yr Adroddiad, gyda llawer o'n hargymhellion yn ceisio sicrhau bod y gyfraith yn cefnogi'r amcan hwn. Ond mae yna rhai argymhellion allweddol sy'n canolbwyntio'n benodol ar gefnogi a hyrwyddo cydnabod dymuniadau'r ewyllysiwr am yr hyn ddylai ddigwydd i'w eiddo ar ôl iddo farw: creu pŵer llys i hepgor y gofynion ffurfioldeb i wneud ewyllys ddilys; gostwng yr oedran ar gyfer gwneud ewyllys; ac ehangu'r cwmpas o ran pryd y gall llys gywiro ewyllys.

### Pŵer i hepgor

Ar hyn o bryd, os nad yw ewyllys yn cydymffurfio â gofynion ffurfioldeb Deddf Ewyllysiau 1837, nid yw'n ewyllys ddilys, hyd yn oed os yw'n glir iawn beth oedd person am ei weld yn digwydd i'w eiddo ar ôl iddo farw. Os nad oedd y person hwnnw wedi gwneud ewyllys flaenorol, a honno dal yn ddilys, byddai'n marw'n ddiewyllys, a'r rheolau diewyllysedd fyddai'n penderfynu pwy fyddai'n etifeddu'r eiddo. Nid yw llymder y canlyniad o fethu cydymffurfio â'r gofynion ffurfioldeb yng Nghymru a Lloegr yn cyfateb i leoedd eraill ar hyd a lled y byd. Yn wir, mewn mannau eraill, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, mae'n bosibl i ewyllys ffurfiol annilys gael ei gweithredu.

Yn ein barn ni, os yw bwriadau ewyllysiol unigolyn yn glir, dylid cael proses sy'n ei gwneud yn bosibl gweithredu'r bwriadau hynny. Byddai proses o'r fath yn cefnogi'r nod o sicrhau rhyddid ewyllysiol, drwy wneud yn siŵr bod y gyfraith yn gwireddu dymuniadau pobl sydd wedi marw cymaint ag y gall. Byddai'n golygu na fyddai diffygion wrth gydymffurfio â'r elfennau ffurfioldeb – mewn achosion priodol – yn atal dymuniadau ewyllysiwr rhag cael eu gwireddu. A gallai fod o gymorth penodol pan fydd ewyllys yn cael ei gwneud gartref, ac felly'n fwy tebygol o beidio â chydymffurfio â'r rheolau ar elfennau ffurfioldeb nag un a lunnir gan luniwr ewyllysiau neu gyfreithiwr proffesiynol.

**Rydym yn argymell y dylai fod yn bosibl i lys hepgor y gofynion ffurfioldeb mewn perthynas ag ewyllys annilys – "pŵer i hepgor".**

Bydd gan y llys y pŵer i wneud gorchymyn ar yr amod yr ymdrinnir â dogfen – neu fwy nag un ddogfen – fel ewyllys ffurfiol ddilys, a fyddai wedyn yn rheoli'r hyn sy'n digwydd i eiddo'r ymadawedig. Bydd y llys yn gallu edrych ar unrhyw gofnod gan yr ewyllysiwr sy'n mynegi ei fwriadau ewyllysiol, gan gynnwys dogfennau electronig, yn ogystal â recordiadau fideo a sain. Er mwyn arfer y pŵer, bydd yn rhaid i'r llys fod yn fodlon bod y cofnodion yn dangos bwriadau ewyllysiol clir a dilys yr ymadawedig. Bydd yn rhaid i'r llys hefyd fod yn fodlon nad oedd y bwriadau ewyllysiol hyn wedi newid ar adeg marwolaeth yr unigolyn: mai dyma oedd gwir ddymuniadau'r unigolyn mewn perthynas â'i ystad.

Rydym yn cydnabod pryderon y gallai cyflwyno pŵer i hepgor gyflwyno rhywfaint o ansicrwydd i'r rhan hon o'r gyfraith, yn enwedig gan fod cwmpas a chymhwysiad y pŵer yn cael ei ddatblygu gan y llysoedd mewn cyfraith achosion. Fodd bynnag, rydym o'r farn bod manteision y pŵer i hepgor a'r gallu i wireddu bwriadau'r ewyllysiwr mewn achosion priodol yn cyfiawnhau unrhyw ansicrwydd ychwanegol. Rydym hefyd yn deall nad yw pwerau tebyg i hepgor wedi arwain at gynnydd anghymesur mewn ymgyfreitha a'u bod yn gweithredu'n llwyddiannus mewn rhannau eraill o'r byd, gan gynnwys Canada, Awstralia a Seland Newydd.

☞ Gweler Pennod 6 o'r Adroddiad

### Plant yn gwneud ewyllys

Ar hyn o bryd, rhaid i rywun fod yn 18 oed neu'n hŷn i wneud ewyllys ddilys. Os bydd rhywun yn ceisio gwneud ewyllys cyn troi'n 18 oed, ni fydd yr ewyllys yn ddilys.

Mae lleoedd eraill yn caniatáu i unigolion iau wneud ewyllysiau. Er enghraifft, yn yr Alban, gall unigolyn wneud ewyllys yn 12 oed, ac yng Ngholumbia Brydeinig yng Nghanada yn 16 oed. Mae rhai lleoedd hefyd wedi symud oddi wrth reol absoliwt drwy ganiatáu i'r llys awdurdodi plentyn i wneud ewyllys mewn achosion unigol.

Fodd bynnag, yng Nghymru a Lloegr, pan fydd plentyn yn marw, dosberthir unrhyw eiddo y mae'n berchen arno yn unol â'r rheolau diewyllysedd, a fydd bron bob amser yn golygu bod ystad y plentyn yn mynd i'r ddau riant. Gall defnyddio'r rheolau hyn achosi anghyfiawnder mewn achosion eithriadol, er enghraifft, os nad yw'r plentyn yn dymuno i un o'i rieni etifeddu ei eiddo, neu o ran gallu penderfynu beth ddylai ddigwydd i'w gorff ar ôl marw. Gall y sefyllfaoedd hyn godi, er enghraifft, mewn achosion lle mae plentyn yn derfynol sâl (neu y mae disgwyl iddynt farw cyn iddynt fod yn 18 oed) ond nad yw un o'i rieni wedi chwarae rhan yn ei fywyd.

Rydym yn dod i'r casgliad y dylai'r oedran pryd y gall person wneud ewyllys ddilys gyd-fynd â'r gyfraith ar alluedd meddyliol. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn ymdrin â chwestiynau ynghylch galluedd meddyliol ar gyfer y rheini sy'n 16 oed neu'n hŷn, ac mae'n cymryd bod galluedd gan bobl o'r oedran hwn, oni bai y cadarnheir fel arall.

**Felly, rydym yn argymell y dylid gostwng yr oedran ar gyfer gwneud ewyllys ddilys o 18 i 16.**

Rydym hefyd yn dod i'r casgliad, yn yr amgylchiadau eithriadol lle bydd hynny'n briodol, y dylai fod gan y llys y pŵer i awdurdodi plentyn dan 16 oed i wneud ewyllys. Rhaid gwneud cais i'r Llys Teulu er mwyn cael y pŵer hwn, a bydd yn asesu a yw'r person ifanc dan 16 oed yn gymwys i wneud yr ewyllys y mae'n dymuno'i gwneud. Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys cwestiynau ynghylch a yw gwneud yr ewyllys dan sylw er budd gorau'r plentyn. Credwn y bydd y pŵer hwn yn rhoi rhyddid ewyllysiol i blentyn dan 16 oed, lle mae gan y plentyn asedau sylweddol ac na fydd yn byw i fod yn 16 oed o bosibl.

**Rydym yn argymell y dylai bod modd i'r llys roi'r awdurdod i blentyn dan 16 oed wneud ewyllys.**

☞ Gweler Pennod 10 o'r Adroddiad

## Cywiro

Mae cywiro'n disgrifio pŵer y llys i gywiro dogfen gyfreithiol, gan gynnwys ewyllys, fel ei bod yn adlewyrchu'r hyn yr oedd yr ewyllysiwr yn bwriadu ei ddweud. Mae'r gyfraith ar gywiro ewyllysiau wedi'i nodi ar hyn o bryd yn adran 20 o Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1982. Mae hyn yn caniatáu i'r llys gywiro ewyllys os nad yw'n cyflawni bwriadau'r ewyllysiwr oherwydd:

- gwall clercio; neu
- fethiant y sawl a ddrafftiodd yr ewyllys i ddeall cyfarwyddiadau'r ewyllysiwr.

Ni all y llys gywiro ewyllys lle bo'r ewyllysiwr neu'r drafftiwr yn fwriadol wedi dewis iaith nad oedd â'r ystyr neu'r effaith a fwriadwyd, hynny yw, yn fwriadol wedi defnyddio'r geiriau anghywir ond mewn camgymeriad. Mae'r rhain yn aml yn cael eu galw'n gamgymeriadau drafftio. Felly, yn gyffredinol, gall y llys gywiro ewyllys lle defnyddiwyd y geiriau anghywir drwy amryfusedd, sef gwall clercio, ond nid lle defnyddiwyd y geiriau anghywir yn fwriadol, sef camgymeriad drafftio. Gallai hyn arwain at ganlyniadau annheg, oherwydd yn y pen draw mae'n dibynnu ar feddylfryd y person sy'n drafftio'r ewyllys yn hytrach na bwriadau'r ewyllysiwr.

Ni all ein hargymhelliad ar gyfer creu pŵer i hepgor lenwi'r bwlch hwn. Bydd y pŵer i hepgor yn helpu mewn achosion lle na lwyddwyd i gydymffurfio â'r elfennau ffurfioldeb gofynnol. Mae'r broses o gywiro ewyllys, ar y llaw arall, yn cymryd bod yr ewyllys sy'n cael ei chywiro wedi'i gweithredu'n briodol.

**Rydym yn argymell y dylai'r llys allu cywiro ewyllys pan fydd yn fodlon nad yw'r ewyllys yn gweithredu bwriadau'r ewyllysiwr oherwydd nad yw'r sawl sydd wedi drafftio'r ewyllys wedi deall ystyr neu effaith uniongyrchol yr iaith a ddefnyddiwyd yn yr ewyllys.**

☞ Gweler Pennod 11 o'r Adroddiad

## DIOGELU EWYLLYSWYR

Drwy gydol ein prosiect, rydym wedi ystyried a yw'r gyfraith yn diogelu ewyllyswyr yn ddigonol, yn enwedig rhai agored i niwed. Gall ewyllyswyr fod yn agored i niwed am lawer o resymau. Gallai rhesymau cyffredin gynnwys henaint eithafol; profedigaeth ddiweddar; salwch; neu ddibyniaeth ar bobl eraill am ofal. Rydym yn gwneud rhai argymhellion allweddol er mwyn sicrhau bod y gyfraith yn diogelu ewyllyswyr rhag camdriniaeth: galluogi'r llys i ddod i gasgliad fod dylanwad amhriodol wedi bod ar ewyllysiwr pan oedd yn gwneud ei ewyllys lle mae sail resymol dros amau hynny; darparu bod rhoddion i'r rhai sy'n cyd-fyw â thystion a'r rhai sy'n llofnodi ar ran yr ewyllysiwr yn annilys; a diddymu'r rheol y bydd ewyllys bresennol yn cael ei dirymu'n awtomatig pan fydd person yn priodi neu'n dod yn rhan o bartneriaeth sifil.

### Cyfraith dylanwad amhriodol ewyllysiol

Un ffordd o ddiogelu ewyllyswyr, ac ewyllyswyr sy'n arbennig o agored i niwed, yw cyfraith dylanwad amhriodol. Pan fydd ewyllysiwr wedi gwneud ewyllys (neu roi rhodd mewn ewyllys) o ganlyniad i orfodaeth – sy'n golygu pwysau a oedd yn drech na'i feddwl heb ei  argyhoeddi mai dyna beth oedd yn dymuno ei wneud – mae'r ewyllys (neu'r rhodd) yn annilys. Ar hyn o bryd, os oes rhywun eisiau herio ewyllys ar y sail bod rhywun wedi cael dylanwad amhriodol ar yr ewyllysiwr, mae'n rhaid profi hynny. Ond mae'n anodd profi dylanwad amhriodol, yn enwedig os mai dim ond tystiolaeth amgylchiadol sydd ar gael, fel sy'n digwydd yn aml. Mae'r llys yn debygol o ganfod bod yr ewyllysiwr wedi cael ei berswadio'n ddilys, yn hytrach na'i orfodi.

Credwn ei bod yn rhy anodd herio ewyllys ar sail dylanwad amhriodol, oherwydd yr anawsterau sy'n gysylltiedig â phrofi hynny. Gall y ffaith bod dylanwad amhriodol yn aml yn digwydd y tu ôl i ddrysau caeedig a gan rywun sy'n agos at yr ewyllysiwr fod yn rhwystr anorchfygol mewn rhai achosion wrth sefydlu bod yr ewyllysiwr wedi'i orfodi, yn enwedig ar ôl iddo farw. Felly, credwn nad yw'r gyfraith yn mynd ati'n ddigonol i ddiogelu ewyllyswyr sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth ariannol.

**Er mwyn diogelu ewyllyswyr yn well (yn enwedig ewyllyswyr agored i niwed), rydym yn argymell y dylai fod yn bosibl i'r llysoedd ddod i'r casgliad bod ewyllys wedi'i chyflwyno drwy ddylanwad amhriodol, lle ceir tystiolaeth sy'n rhoi sail resymol dros amau hynny.**

Gyda honiadau o ddylanwad amhriodol, os oes tystiolaeth i ddarparu sail resymol dros amau dylanwad amhriodol, bydd y llys yn gallu tybio bod dylanwad amhriodol wedi digwydd. Wrth benderfynu a oes sail resymol, rhaid i'r llys ystyried, ymhlith ffactorau eraill, unrhyw berthynas o ddylanwad rhwng y person yr honnir iddo ddylanwadu'n amhriodol a'r ewyllysiwr; ymddygiad y person hwnnw mewn perthynas â gwneud yr ewyllys; a'r amgylchiadau y gwnaed yr ewyllys ynddynt.

Os yw'r llys yn tybio bod dylanwad amhriodol wedi digwydd, bydd y baich tystiolaethol yn symud i'r unigolyn sy'n ceisio profi'r ewyllys i fodloni'r llys, ar sail tebygolrwydd, na ddigwyddodd y dylanwad amhriodol hwnnw, a bod yr ewyllys, mewn gwirionedd, yn adlewyrchu bwriadau'r ewyllysiwr ei hun. Bydd ein hargymhelliad yn golygu, mewn achosion priodol, y bydd yn rhaid i'r person sydd fwyaf abl i siarad am yr amgylchiadau pan wnaeth yr ewyllysiwr ei ewyllys – hynny yw, y person yr honnir ei fod wedi dylanwadu'n amhriodol ar yr ewyllysiwr – roi esboniad sy'n bodloni'r llys er mwyn i'r ewyllys fod yn ddilys. Felly, bydd yr argymhelliad hwn yn helpu i sicrhau y rhoddir sylw i'r math hwn o gamdriniaeth ariannol.

Rydym yn gwneud yr argymhelliad hwn ynghylch dylanwad gormodol yng nghyd-destun argymhelliad pellach sy'n gosod mewn statud y gofyniad ar gyfer "gwybodaeth a chymeradwyaeth", sef y gofyniad bod yr ewyllysiwr yn bwriadu gwneud yr ewyllys fel y gwnaeth, gan ddeall cynnwys yr ewyllys a'i heffeithiau.

Roeddem yn bryderus fod tuedd i ewyllysiau gael eu herio ar sail diffyg gwybodaeth a chymeradwyaeth mewn amgylchiadau lle mae'n ymddangos bod y gwir bryder yn ymwneud â dylanwad amhriodol, hynny yw, fod yr ewyllysiwr yn deall cynnwys ac effaith ei ewyllys ond nad oedd yn adlewyrchu ei fwriadau personol. Bydd rhoi'r gofyniad am wybodaeth a chymeradwyaeth ar sail statudol yn dangos yn glir y gwahaniaeth rhwng hyn a chyfraith dylanwad amhriodol.

☞ Gweler Pennod 9 o'r Adroddiad

### Rhoddion i'r rhai sy'n cyd-fyw â thystion, ac i unigolion sy'n llofnodi ar ran yr ewyllysiwr (a'u priod, eu partner sifil neu'r sawl sy'n cyd-fyw â nhw)

Ffordd arall o ddiogelu ewyllyswyr, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed, yw cryfhau'r mesurau amddiffyn sydd eisoes yn bresennol yn Neddf Ewyllysiau 1837. Ar hyn o bryd, os oes rhodd mewn ewyllys i berson a fu'n dyst i'r ewyllys, neu i briod neu bartner sifil y tyst, yn ôl y gyfraith, ni fydd y rhodd yn cael ei gweithredu, er bod yr ewyllys ei hun yn dal yn ddilys.

Mae'r gyfraith hefyd yn dweud y caiff rhywun lofnodi ewyllys ar ran yr ewyllysiwr, ym mhresenoldeb yr ewyllysiwr, pan fo'r ewyllysiwr wedi rhoi'r awdurdod iddo wneud hynny. Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn anghyson gan nad yw'n annilysu rhodd mewn ewyllys i rywun a lofnododd ar ran yr ewyllysiwr. Credwn fod hyn yn anomalaidd, o ystyried bod gwrthdaro buddiannau tebyg a photensial ar gyfer camdriniaeth yn bodoli yn achos rhywun s'yn llofnodi ar ran ewyllysiwr ag yn achos tyst i ewyllys.

Credwn hefyd ei bod yn anomalaidd fod y rheol bresennol ar dystion ond yn berthnasol i roddion iddyn nhw neu i'w priod neu eu partner sifil, ond nid i berson sy'n cyd-fyw â nhw. O ystyried pa mor gyffredin yw cyd-fyw mewn cymdeithas Brydeinig fodern, a'r ffaith bod y risg o gamdriniaeth i bob golwg yr un fath p'un ai a yw rhodd yn cael ei gwneud i briod neu bartner sifil, neu i bartner sy'n cyd-fyw, credwn y dylid ymestyn y rheol i gynnwys rhywun sy'n cyd-fyw â thyst. Mae'r rheolau sy'n ymwneud â phrofi ewyllysiau yn mynnu bod tystion annibynnol y gellir dibynnu arnynt i ddarparu tystiolaeth ynghylch a wnaed yr ewyllys mewn ffordd ddilys, felly ni ddylai tystion fod â buddiannau o dan yr ewyllys.

Rydym yn cydnabod nad yw rhywun sy'n cyd-fyw mor glir â rhywun sy'n briod neu'n bartner sifil. Fodd bynnag, mae rhannau eraill o'r gyfraith eisoes wedi nodi pan fydd pobl yn cyd-fyw. Ein hargymhelliad ni yw defnyddio'r diffiniad yn adran 62 o Ddeddf Cyfraith Teulu 1996:

> "dau berson sydd ddim yn briod â'i gilydd nac yn bartneriaid sifil i'w gilydd ond sy'n cyd-fyw fel pe baent yn gwpl priod neu'n bartneriaid sifil."



**Felly, rydym yn argymell y dylai'r rheol sy'n annilysu rhodd mewn ewyllys i dyst, neu i'w briod neu bartner sifil, gael ei hymestyn er mwyn i roddion mewn ewyllys gael eu hannilysu hefyd pan fyddant yn cael eu gwneud –**

- **i'r sawl sy'n cyd-fyw â thyst;**
- **i berson a lofnododd yr ewyllys ar ran yr ewyllysiwr; ac**
- **i briod, partner sifil neu'r sawl sy'n cyd-fyw â'r person hwnnw a lofnododd yr ewyllys ar ran yr ewyllysiwr.**

Rydym hefyd yn gwneud argymhelliad i ddarparu rhyddhad o'r rheolau hyn sy'n annilysu rhoddion.

**Rydym yn argymell y dylai'r llys gael y pŵer i gadw rhodd i dyst neu i berson sy'n llofnodi ar ran yr ewyllysiwr (neu i'w briod, ei bartner sifil neu'r sawl sy'n cyd-fyw ag ef), os yw'r llys o'r farn bod hynny'n gyfiawn ac yn rhesymol, gan ystyried ymddygiad y person hwnnw mewn perthynas â gweithredu'r ewyllys neu brofi dilysrwydd yr ewyllys.**

☞ Gweler Pennod 7 o'r Adroddiad

### Y rheol bod priodas yn dirymu ewyllys

Pan fydd person yn gwneud ewyllys, gall ddewis ei dirymu. Fodd bynnag, dan y gyfraith bresennol, bydd ewyllys person yn cael ei dirymu'n *awtomatig* os yw'n priodi neu'n ffurfio partneriaeth sifil.

Pan gaiff ewyllys ei dirymu gan briodas neu bartneriaeth sifil, rhaid i'r person wneud ewyllys newydd neu bydd y rheolau diewyllysedd yn berthnasol pan fydd yn marw. Dan y rheolau diewyllysedd, bydd priod neu bartner sifil yr unigolyn sy'n dal yn fyw yn derbyn y rhan fwyaf o'i ystad, os nad ei ystad gyfan. Bydd gan y partner priod neu'r partner sifil sy'n dal yn fyw hefyd yr awdurdod i wneud trefniadau ar gyfer yr angladd ac i benderfynu a ddylid claddu ynteu amlosgi'r corff, ac ymhle i gladdu'r gweddillion.

Mae tystiolaeth gan ymgyngoreion yn dweud wrthym nad yw'r rhan fwyaf o bobl yn gwybod am y rheol dirymu awtomatig hon. O ganlyniad i hyn, mae ewyllysiau ewyllyswyr yn cael eu dirymu heb yn wybod iddynt, ac yn groes i'w dymuniad o bosibl. Gall hyn achosi diewyllysedd anfwriadol. Drwy roi dymuniadau ewyllysiol pobl o'r neilltu heb iddynt fod yn ymwybodol o hynny, mae'r rheol felly'n gweithredu mewn ffordd sy'n groes i ryddid ewyllysiol.

Ar ben hynny, rydym yn bryderus bod y rheol ynglŷn â phriodas yn dirymu ewyllysiau yn cael ei hecsbloetio o bosibl, at ddiben galluogi "priodas rheibus". Priodas rheibus ydy priodas ble bydd person yn priodi rhywun – rhywun oedrannus yn aml iawn, neu sydd â llai o alluedd meddyliol i briodi – fel math o gam-drin ariannol. Bydd y briodas – hyd yn oed pan nad oes gan yr unigolyn y galluedd i briodi – yn dirymu unrhyw ewyllys bresennol, sydd o bosibl yn gadael eiddo'r ewyllysiwr i blant o briodas flaenorol. O ganlyniad, bydd y sawl sydd wedi priodi drwy dwyll yn etifeddu'r cyfan neu'r rhan fwyaf o eiddo ewyllysiwr o dan y rheolau diewyllysedd.

Ac efallai na fydd yr ewyllysiwr yn sylweddoli effaith ei briodas neu bartneriaeth sifil ar ei ewyllys. Neu efallai na fydd yr ewyllysiwr yn gallu gwneud ewyllys newydd: mae lefel y galluedd meddyliol sydd ei angen i wneud ewyllys yn uwch na'r lefel sydd ei hangen i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil. Mae hyn yn golygu ei bod yn bosibl i berson fod mewn sefyllfa lle, drwy briodi neu ymuno â phartneriaeth sifil, y bydd yn dirymu ei ewyllys bresennol, ond heb y galluedd i wneud ewyllys newydd. Yn yr achos hwn, yr unig opsiwn i atal y rheolau diewyllysedd rhag bod yn berthnasol fyddai i'r Llys Gwarchod wneud ewyllys statudol i'r ewyllysiwr.



Felly, credwn y bydd diddymu'r rheol hon yn ychwanegu haen o ddiogelwch i bobl agored i niwed sydd mewn perygl o'r math niweidiol hwn o gam-drin ariannol.

Credwn hefyd fod y rheol yn gweithredu mewn ffordd sy'n annhebygol o adlewyrchu'r hyn y byddai llawer o bobl ei eisiau neu'n ei ddisgwyl. Mae'r cyd-destun cymdeithasol y mae'r rheol yn gweithredu ynddo yn wahanol iawn heddiw i sut yr oedd pethau yn ystod blynyddoedd cynnar oes Fictoria, pan ddaeth y rheolau i rym. I lawer o gyplau, efallai na fydd priodas yn cynrychioli newid mawr yn eu perthynas, er enghraifft, os oes cyfnod sylweddol o gyd-fyw wedi bod cyn y briodas. Mae ail-briodasau a phriodasau yn ddiweddarach mewn bywyd yn gyffredin hefyd, ac yn yr achosion hyn, efallai na fydd y briodas yn newid cynlluniau unigolion ar gyfer plant sy'n oedolion neu wyrion a wyresau i fod yn brif fuddiolwyr eu hystâd. Nid ydym yn credu chwaith fod angen gwarchodaeth y rheol dirymu ar bartneriaid priod a sifil rhag y rheol dirymu, gan ystyried eu hawl i wneud hawliad am ddarpariaeth ariannol resymol gan yr ystad, o dan Ddeddf Etifeddu (Darpariaeth i Deulu a Dibynyddion) 1975. Partneriaid priod a phartneriaid sifil sydd â'r warchodaeth fwyaf o'i gymharu â chategorïau eraill o aelodau'r teulu a dibynyddion sy'n gallu gwneud hawliad ar eiddo person ymadawedig, a hynny oherwydd nad oes rhaid iddynt ddangos y byddai'r ddarpariaeth yn angenrheidiol ar gyfer eu cynhaliaeth, yn wahanol i hawlwyr eraill.

**Rydym felly'n argymell y dylid dileu'r rheol bod priodas neu bartneriaeth sifil yn dirymu ewyllys.**

☞ Gweler Pennod 13 o'r Adroddiad

## SICRWYDD AC EGLURDER

Drwy gydol ein prosiect, rydym wedi gwneud argymhellion a fydd yn rhoi mwy o sicrwydd ac eglurder i'r gyfraith sy'n ymdrin ag ewyllysiau lle mae'n bosibl gwneud hynny, gan ei gwneud yn haws deall a chymhwyso'r gyfraith, a lleihau anghydfodau sy'n deillio o amwyseddau presennol. Mae'r prif argymhellion a fydd yn hyrwyddo'r nod hwn yn cynnwys mabwysiadu'r prawf yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 fel prawf ar gyfer galluedd ewyllysiol, gan ddarparu y cymerir bod gan rywun y galluedd i wneud ewyllys, a chyhoeddi cod ymarfer ar asesu galluedd; a gwneud darpariaeth benodol i alluogi ewyllysiau electronig i fod yn ffurfiol ddilys.

### Gallu ewyllysiol

Mae'r prawf ar gyfer a oes gan berson y galluedd meddyliol angenrheidiol i wneud ewyllys i'w weld ar hyn o bryd mewn achos o 1870, *Banks v Goodfellow*. Er mwyn bod â galluedd –

- rhaid i'r ewyllysiwr fod â'r gallu i ddeall ei fod yn gwneud ewyllys, ac effaith yr ewyllys honno;
- rhaid i'r ewyllysiwr fod â'r galluedd i ddeall maint ei ystad;
- rhaid i'r ewyllysiwr fod â'r galluedd i ddeall pwy sydd â hawl i'w ystad (er enghraifft, ei blant); ac
- ni ddylai unrhyw anhwylder ar y meddwl neu gamsyniad amharu ar ddealltwriaeth yr ewyllysiwr, na dylanwadu ar ei ymagwedd neu ei deimladau.

Mae'r prawf hwn yn berthnasol wrth benderfynu a yw ewyllys y mae person wedi'i wneud drosto'i hun yn ddilys.

Fodd bynnag, mae prawf galluedd meddyliol arall sydd hefyd yn berthnasol mewn rhai achosion. Deddf Galluedd Meddyliol 2005 sy'n darparu'r prawf presennol i ddangos a oes gan berson y galluedd meddyliol i wneud penderfyniad mewn sawl agwedd ar ei fywyd, gan gynnwys ystod eang o benderfyniadau sy'n ymwneud ag arian a lles y gall fod angen eu gwneud ar ran person sydd heb ddigon o alluedd. Mae prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol hefyd yn berthnasol pan fydd y Llys Gwarchod yn penderfynu a oes gan berson y galluedd i wneud ewyllys drosto'i hun; os nad yw'r galluedd ganddo, gall y Llys Gwarchod orchymyn bod ewyllys statudol yn cael ei gwneud ar ei ran.

Mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn creu rhagdybiaeth bod unigolyn yn meddu ar y galluedd priodol oni ddangosir fel arall. Mae'n cyflwyno prawf dau gam. Yn gyntaf, mae'r Ddeddf Galluedd Meddyliol yn nodi'r amgylchiadau pan ystyrir nad yw person yn gallu gwneud penderfyniad drosto'i hun, oherwydd nad yw'n gallu deall y wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad; cadw'r wybodaeth; defnyddio neu bwyso a mesur y wybodaeth honno fel rhan o'r broses o wneud y penderfyniad; neu gyfleu'r penderfyniad hwnnw. Yn ail, rhaid i anallu'r person i wneud penderfyniad, fel y'i diffinnir, gael ei achosi gan amhariad ar y meddwl neu'r ymennydd, neu aflonyddwch o ran gweithrediad. Pan fodlonir dwy ran y prawf, gellir dweud nad oes gan unigolyn ddigon o alluedd mewn perthynas â'r penderfyniad penodol. Gall y diffyg galluedd hwn fod dros dro neu'n barhaol.

Rydym yn dod i'r casgliad ei bod yn ddiegwyddor ac yn ddryslyd cael dau brawf sy'n ymdrin â galluedd meddyliol yng nghyd-destun ewyllysiau.

Mae rhywfaint o ddryswch wedi bod yn y gorffennol, sydd wedi'i ddatrys i raddau helaeth erbyn hyn, ynghylch a yw prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cymryd lle prawf *Banks v Goodfellow* wrth benderfynu a oes gan berson y gallu i wneud ewyllys drosto'i hun. Mae pob penderfyniad llys diweddar wedi defnyddio prawf *Banks v Goodfellow* wrth benderfynu'n ôl-weithredol (ar ôl i'r ewyllysiwr farw) a oedd gan yr ewyllysiwr alluedd ar yr adeg y gwnaeth ei ewyllys. Fodd bynnag, pan fydd y Llys Gwarchod yn penderfynu a yw person byw yn meddu ar y galluedd i wneud ewyllys ai peidio, er mwyn penderfynu a oes gan y llys y gallu i wneud ewyllys statudol ar ei ran, mae'n amlwg bod prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn berthnasol.

Mae'r rheswm dros y dulliau gwahanol a ddefnyddir ar hyn o bryd yn gwbl hanesyddol; nid oes cyfiawnhad rhesymegol dros ddau brawf gwahanol. Mae'r cwestiwn a oes gan rywun y galluedd i wneud ewyllys yn rhan sylfaenol o gyfraith ewyllysiau, ac yn un sy'n gorfod cydbwyso egwyddorion rhyddid ewyllysiol yn ofalus â'r angen i ddiogelu ewyllyswyr. Felly, mae angen i'r gyfraith fod yn glir, ac ni ddylai'r prawf a ddefnyddir i ateb y cwestiwn ddibynnu ar bwy sy'n ateb y cwestiwn, na phryd y gofynnir y cwestiwn.

Mae manteision ehangach i gynnwys y broses o wneud ewyllysiau yng nghynllun y Ddeddf Galluedd Meddyliol drwyddi draw. Mae prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn brawf clir o allu. Bydd mabwysiadu prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn sicrhau bod datblygiadau yn y gyfraith ar alluedd yn gyffredinol yn berthnasol hefyd i'r gyfraith sy'n ymwneud â gallu ewyllysiol. Bydd hefyd yn gwneud y gyfraith yn gliriach i'r rheini sy'n asesu galluedd fel rhan o'u rôl – fel ymarferwyr meddygol – mewn perthynas ag ystod eang o benderfyniadau.

**Felly rydym yn argymell y dylai'r prawf yn Neddf Galluedd Meddyliol 2005 fod yn berthnasol i bob asesiad o allu ewyllysiol.**

Bydd ein hargymhelliad yn golygu y bydd y prawf yr un fath p'un ai a yw galluedd person yn cael ei asesu yn ystod ei fywyd, yng nghyd-destun gwneud ewyllys statudol, neu ar ôl ei farwolaeth, wrth farnu a oedd ganddo'r galluedd angenrheidiol ar yr adeg y gwnaed yr ewyllys.

Gall mabwysiadu prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol arwain at newidiadau i'r gyfraith o ran galluedd unigolyn i wneud ewyllys. Credwn y gallai profion y Ddeddf Galluedd Meddyliol a *Banks v Goodfellow* arwain at ganlyniadau gwahanol mewn perthynas ag ewyllyswyr sydd ar y ffin o ran bod â galluedd neu beidio. Mewn rhai ffyrdd, efallai y bydd prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn gofyn mwy o ewyllyswyr. Gallai hyn olygu y byddai gan ewyllyswyr y galluedd i wneud ewyllys o dan *Banks v Goodfellow*, ond ddim o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol – er enghraifft, os na allant ddeall canlyniadau cyfatebol yr ewyllys. Mewn ffyrdd eraill, gallai prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol ofyn llai o ewyllyswyr, gan arwain at ewyllyswyr heb alluedd o dan *Banks v Goodfellow* yn cael gwneud ewyllys o dan brawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol, er enghraifft, os bydd eu salwch neu eu hanabledd meddwl yn newid eu teimladau a'u gwerthoedd. Nid yw'n ymddangos y bydd mabwysiadu prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn golygu y bydd y safon ar gyfer galluedd yn uwch nac yn is – dim ond ychydig yn wahanol.

Serch hynny, bydd y gyfraith achosion gyfoethog ar allu ewyllysiol dros y 200 mlynedd diwethaf yn dal yn berthnasol i weithrediad prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol pan gaiff ei ddefnyddio i asesu galluedd rhywun i wneud ewyllys. Yn anad dim, bydd yn parhau i lywio'r wybodaeth sy'n berthnasol i'r penderfyniad penodol o wneud ewyllys.

**Er mwyn sicrhau hyn, rydym yn argymell y dylai Cod Ymarfer y Ddeddf Galluedd Meddyliol, sy'n rhoi canllawiau i'r rheini sy'n asesu galluedd o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol, gyfeirio at elfennau o brawf *Banks v Goodfellow* ac egluro'r elfennau hynny.**

Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn rhagdybio bod unigolyn yn meddu ar y galluedd priodol oni ddangosir fel arall.

**Rydym yn argymell y dylai'r rhagdybiaeth hon ynghylch galluedd fod yn berthnasol yng nghyd-destun gwneud ewyllys.**

Oherwydd ein bod yn argymell y dylid mabwysiadu prawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol i reoli galluedd ewyllysiol, bydd y rhagdybiaeth yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol hefyd yn berthnasol i ewyllyswyr. Fodd bynnag, nid ydym yn credu y bydd defnyddio'r rhagdybiaeth hon yn newid y dadansoddiad gan lysoedd yn y rhan fwyaf o achosion dadleuol, oherwydd er nad oes rhagdybiaeth yn Neddf Ewyllysiau 1837 ar hyn o bryd bod gan berson alluedd, mae cyfraith achosion wedi sefydlu sefyllfa sy'n debyg i ragdybiaeth statudol. Os yw ewyllys yn ddilys o ran yr elfennau ffurfioldeb y cydymffurfiwyd â nhw, ac os yw'n ymddangos yn rhesymegol, mae'r baich wedyn yn syrthio ar berson sy'n ceisio herio ewyllys i ddarparu digon o dystiolaeth i fwrw amheuaeth ar allu'r ewyllysiwr. Ar ben hynny, mewn asesiadau ôl-weithredol o dan brawf *Banks v Goodfellow* a phrawf y Ddeddf Galluedd Meddyliol, bydd y llysoedd yn gwneud canfyddiad ynghylch galluedd drwy edrych ar y dystiolaeth yn ei chyfanrwydd lle bo hynny'n bosibl.

Mae galluedd yn fater o radd. Mae asesu galluedd rhywun yn aml yn dasg anodd, yn enwedig os yw'r asesiad yn cael ei gynnal ar ôl i'r person farw. Felly, mae'n bwysig bod cyfreithwyr a'r rheini sy'n ysgrifennu ewyllysiau yn cael arweiniad clir ar asesu galluedd, a'u bod yn cadw tystiolaeth dda o'u hasesiadau, er mwyn i'r gyfraith weithio'n dda yn ymarferol.

Mae rheol o arfer gorau sy'n deillio o gyfraith achosion, a elwir yn "Rheol Aur", ar hyn o bryd yn amlinellu ym mha amgylchiadau, a gan bwy, y dylid asesu galluedd ewyllysiwr.

Mae'r Rheol Aur yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyfeirio sylw cyfreithwyr a'r rheini sy'n ysgrifennu ewyllysiau at fater galluedd ac yn nodi'r amgylchiadau lle mae angen gofal penodol.  Fodd bynnag, mae'r canllawiau y mae'n eu cynnig yn gyfyngedig. Rydym wedi dod i'r casgliad y dylid rhoi canllawiau manwl i gyfreithwyr a'r rhai sy'n llunio ewyllysiau yn lle'r Rheol Aur.

**Felly, rydym yn argymell y dylid cael cod ymarfer ar gyfer galluedd ewyllysiol a roddir o dan Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005 ar asesu galluedd, ac y dylai fod yn ofynnol i unrhyw un sy'n paratoi ewyllys neu'n asesu galluedd yn ei rôl fel gweithiwr proffesiynol neu am dâl roi sylw iddo.**




Rydym yn argymell y dylai'r Cod hefyd gynnwys gwybodaeth arall am alluedd ewyllysiol, gan gynnwys y prawf, y rhagdybiaeth o alluedd, pryd y mae'n rhaid i'r ewyllysiwr gael galluedd, a sut y dylai ewyllyswyr gael eu cefnogi i gael galluedd.

☞ Gweler Pennod 2 o'r Adroddiad

## Ewyllysiau electronig

Mae’r gofynion ffurfioldeb i wneud ewyllys ddilys bron yn union yr un fath ag yr oeddent pan ddaeth Deddf Ewyllysiau 1837 i rym. Mae’r gofynion hyn, yn gyffredinol, wedi sefyll prawf amser.

Maent yn mynnu –

- bod yr ewyllys yn ysgrifenedig;
- ei bod yn rhaid i’r ewyllys gael ei llofnodi gan yr ewyllysiwr, neu gan berson ar ei ran;
- ei bod yn rhaid i lofnod yr ewyllysiwr ddangos bwriad i’r ewyllys gael effaith gyfreithiol;
- ei bod yn rhaid i’r ewyllysiwr lofnodi’r ewyllys ym mhresenoldeb dau neu ragor o dystion; ac
- ei bod yn rhaid i’r tystion lofnodi ac ardystio’r ewyllys.

Wrth gwrs, nid yw’r gofynion hyn sydd bron yn 200 oed yn darparu’n benodol ar gyfer ewyllysiau electronig.

Nid yw’n glir a allai ewyllys electronig fod yn ddilys o dan ofynion ffurfioldeb presennol Deddf Ewyllysiau 1837.

Mae dogfennau electronig a gweithredu electronig yn cael eu derbyn fwy mewn ystod eang o gyd-destunau. Fodd bynnag, mae’n ddadleuol a ddylid eu derbyn yng nghyd-destun ewyllysiau.

Mae ewyllysiau yn unigryw. Maent yn ddogfennau unochrog, a wneir yn rheolaidd heb gymorth unrhyw weithwyr proffesiynol nac unrhyw drydydd parti o gwbl, ar wahân i’r ddau dyst i lofnod yr ewyllysiwr. Oherwydd na ellir profi bod ewyllys yn ddilys tan ar ôl i’r ewyllysiwr farw, rhaid i’r asesiad ynghylch ei dilysrwydd ddigwydd ar adeg pan na all yr ewyllysiwr ddarparu unrhyw dystiolaeth ynghylch sut y gwnaed yr ewyllys. Efallai na fydd yr asesiad hwnnw’n cael ei gynnal am fisoedd, blynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau ar ôl i’r ewyllys gael ei gweithredu. Nid yw twyll a ffugio mewn achosion yn ymwneud ag ewyllysiau yn anarferol chwaith, a hynny gan amlaf gan rywun sy’n agos at yr ewyllysiwr, fel aelod o’r teulu, ffrind, neu ofalwr, yn hytrach na rhywun dieithr.

Er bod gan ymgyngoreion bryderon o hyd am y mesurau diogelu a gynigir gan ewyllysiau electronig, mynegwyd llawer mwy o gefnogaeth iddynt wrth i’r prosiect fynd rhagddo, wrth gymharu’r cyfnod ymgynghori cyntaf yn 2017 a’n hymgynghoriad atodol yn 2023. Amlygodd pandemig COVID-19 pa mor fanteisiol oedd gallu bod yn dyst i ewyllys o bell – rhywbeth y mae gweithredu electronig yn ei hwyluso – tra mae darpariaeth ar gyfer ewyllysiau electronig mewn lleoedd eraill, fel mewn sawl talaith yn yr Unol Daleithiau, yng Ngholumbia Brydeinig yng Nghanada, a Victoria yn Awstralia, yn golygu nad yw'r syniad o ewyllysiau electronig mor newydd ag yr oedd pan ymgynghorwyd ar y mater y tro cyntaf. Gan mai’r prosiect hwn yw’r adolygiad cyffredinol cyntaf o gyfraith ewyllysiau mewn 200 mlynedd, rydym wedi dod i’r casgliad bod yn rhaid i’r canlyniadau fod yn addas ar gyfer y dyfodol.

Rhaid i’r gyfraith gefnogi rhyddid ewyllysiol. Mae galluogi ewyllysiau i gael eu gwneud yn electronig yn hanfodol ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol.

**Felly rydym yn argymell y dylid gwneud darpariaeth ar gyfer ewyllysiau electronig.**



Fodd bynnag, rhaid i ewyllysiau electronig fod yn ddiogel. Rhaid iddynt ddarparu'r un lefel o ddiogelwch rhag twyll a dylanwad amhriodol, a darparu'r un lefel o sicrwydd a thystiolaeth am fwriadau'r ewyllysiwr ag ewyllysiau papur. Mae ein hadolygiad wedi ein harwain i'r casgliad y gallant wneud hynny: y gellir gwneud ewyllysiau electronig mewn ffordd a fydd yn darparu tystiolaeth gref bod yr ewyllys wedi'i gweithredu gan yr ewyllysiwr; gwneud i'r ewyllysiwr feddwl yn ofalus am yr hyn y mae'n dymuno ei gyflawni gyda'i ewyllys; cyfarwyddo'r ewyllysiwr i gydymffurfio â gofynion safonol sydd wedi'u diffinio'n glir; a darparu digon o amddiffyniad i ewyllyswyr yn erbyn twyll a dylanwad amhriodol pan fyddant yn gwneud eu hewyllys.

**Felly, rydym yn argymell y dylai ewyllysiau electronig allu bod yn ddilys, yn yr un modd ag ewyllysiau papur, ar yr amod eu bod yn bodloni gofyniad ffurfioldeb ychwanegol: bod system ddibynadwy yn cael ei defnyddio i sicrhau diogelwch yr ewyllys.**

Yn benodol, rhaid defnyddio system ddibynadwy sydd –

- ar adeg llofnodi'r ewyllys, yn cysylltu unrhyw lofnod â'r person sydd â'r llofnod hwnnw;
- yn adnabod yr ewyllys fel bod modd gwahaniaethu oddi wrth unrhyw gopïau; ac
- yn amddiffyn yr ewyllys yn erbyn newid neu ddinistrio ac eithrio gan yr ewyllysiwr neu berson a awdurdodir neu a gyfarwyddir gan yr ewyllysiwr i newid neu ddinistrio'r ewyllys.

Rydym hefyd yn argymell, ar gyfer ewyllysiau electronig, y dylai fod yn bosibl i'r gofyniad i'r tystion – neu berson sy'n llofnodi ar ran yr ewyllysiwr – fod ym mhresenoldeb yr ewyllysiwr gael ei fodloni drwy bresenoldeb o bell drwy drosglwyddiad gweledol (er enghraifft, drwy alwad fideo).

☞ Gweler Pennod 8 o'r Adroddiad

## EIN BIL DRAFFT AR GYFER DEDDF EWYLLYSIAU NEWYDD

Fel rhan o'n prosiect, rydym wedi cynhyrchu Bil drafft ar gyfer Deddf Ewyllysiau newydd sbon, er mwyn darparu un Ddeddf fodern sy'n cynnwys yr holl ddeddfwriaethau i gyd mewn un lle.

Felly, mae ein Bil drafft ar gyfer Deddf Ewyllysiau newydd yn gwneud nifer o bethau. Os bydd yn dod i rym, bydd yn diwygio'r gyfraith i roi ein hargymhellion ar waith. Os nad ydym yn argymell y dylai'r gyfraith gael ei newid, mae'r Bil drafft yn trosi darpariaethau presennol Deddf Ewyllysiau 1837 yn ddarpariaethau modern ac yn dod â rhai o'r darpariaethau eraill sy'n ymwneud ag ewyllysiau i un lle, mewn deddfwriaeth arall, fel y gellir dod o hyd iddynt yn yr un fan. Mae'r Bil drafft yn hepgor darpariaethau Deddf 1837 os ydym wedi dod i'r casgliad nad ydynt yn cyflawni unrhyw swyddogaeth erbyn hyn.

Mae'r Bil drafft wedi cael ei ysgrifennu mewn ffordd fodern a hygyrch, gan ddefnyddio iaith sydd wedi'i diweddaru a'i symleiddio.

Drwy gydol yr Adroddiad, rydym yn egluro'n fanwl sut mae ein Bil drafft yn gweithredu pob un o'n hargymhellion. Rydym hefyd wedi drafftio Nodiadau Esboniadol i gyd-fynd â'n Bil drafft, sy'n nodi sut mae'r Bil yn gweithio.

# CASGLIAD A BETH FYDD YN DIGWYDD NESAF

Mae'r argymhellion yn ein Hadroddiad, ynghyd â'n Bil drafft, yn darparu cyfraith gynhwysfawr, newydd a modern ar ewyllysiau. Dyma'r newid mwyaf yng nghyfraith ewyllysiau ers Deddf Ewyllysiau 1837. Credwn y bydd ein hargymhellion yn gwneud y gyfraith yn gliriach ac yn fwy pendant; yn cynnig mwy o amddiffyniad i ewyllyswyr agored i niwed; ac yn hyrwyddo ac yn cefnogi rhyddid yr ewyllysiwr i ddewis beth fydd yn digwydd i'w ystad ar ôl marw.

Nawr, mae'n amser i'r Llywodraeth ystyried argymhellion Comisiwn y Gyfraith ac ymateb iddynt. O dan y Protocol rhwng yr Arglwydd Ganghellor (ar ran y Llywodraeth) a Chomisiwn y Gyfraith Cymru a Lloegr, bydd y Gweinidog cyfrifol yn ymateb i'r argymhellion cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag gydag ymateb dros dro o fewn chwe mis i gyhoeddi'r Adroddiad ac ymateb llawn o fewn blwyddyn.



Delwedd gorchudd: iStock.com/skynesher
Tudalen 5: stock.adobe.com/iS Beaunitta V W/peopleimages.com
Tudalen  9: stock.adobe.com/Asraf
Tudalen 10: iStock.com/ AlexanderFord
Tudalen 14: iStock.com/shutjane
Tudalen 16: stock.adobe.com/Viktor
Eiconau ffeithlun - Tudalen 13: fonts.google.com, available under the Apache License Version 2.0